# Dweud wrth bobl bod gennych ffibrosis yr ysgyfaint

'Telling people you have pulmonary fibrosis' booklet in Welsh

www.actionpf.org



Interstitial Lung Disease Interdisciplinary Network

Action for Pulmonary Fibrosis

## Nid oes ffordd gywir nac anghywir i ddweud wrth deulu a ffrindiau fod gennych ffibrosis yr ysgyfaint. Nid oes rhaid i chi ddweud wrth unrhyw un os nad ydych am wneud hynny, ond gall siarad am eich diagnosis helpu i chi deimlo wedi'ch cefnogi mwy. Os ydych yn ei chael hi'n anodd i ddweud wrth bobl, gallai'r syniadau hyn ei gwneud hi ychydig yn haws.

### Pryd ydw i'n dweud wrth bobl?

Dywedwch wrth bobl pan fydd yn teimlo'n iawn i chi a phan fyddwch yn barod yn emosiynol i siarad am eich diagnosis. Mae rhai pobl am ddysgu mwy am ffibrosis yr ysgyfaint a phrosesu eu diagnosis ar eu pennau'u hunain cyn dweud wrth eraill.

### Sut ydw i'n dweud wrth bobl?

Mae sut rydych yn dweud wrth bobl yn unigol iawn. Efallai y byddech am roi cynnig ar:

- Siarad â grŵp o deulu a ffrindiau ar yr un pryd.
- Cael sgyrsiau un i un â phobl unigol
- Dweud wrth un unigolyn sy'n gweithredu fel 'negesydd' i ddweud wrth eraill.
- Dod â theulu a ffrindiau i apwyntiadau meddygol. Gall gweithwyr gofal iechyd proffesiynol helpu i esbonio'ch diagnosis.
- Rhoi rhywbeth i'ch teulu a ffrindiau ddarllen fel nad oes rhaid i chi esbonio popeth. Mae gennym adnoddau ar-lein a phrintiedig sy'n helpu pobl i ddeall beth yw ffibrosis yr ysgyfaint.




**"Y peth mwyaf i'w gyfathrebu yw'r anghrediniaeth o 'Wir, dim gwellhad? Ydych chi'n siwr?' y math hwnnw o beth. I bawb a ofynnodd, rwy'n ceisio esbonio mewn termau lleyg beth yw hyn a beth mae'n ei olygu yn y tymor hir. Fy null gorau yw dweud y gwir fel rydych yn ei ddeall. Dim pwynt mewn hepgor unrhyw fanylion."**

**Jeff Taylor-Jackson**

## Ble ydw i'n cael y sgwrs?

Dewiswch fan lle rydych yn teimlo'n gyfforddus ac yn gallu siarad yn agored. Gallai hyn fod gartref dros goffi neu wrth fynd allan am dro mewn ardal dawel.

## Beth ddylwn i ei ddweud?

- Os ydych yn ansicr ble i ddechrau, gallech ddefnyddio ymadrodd syml i ddisgrifio ffibrosis yr ysgyfaint yn gyffredinol. Gallai hyn fod yn rhywbeth fel: 'Mae gen i gyflwr o'r enw ffibrosis yr ysgyfaint. Mae hyn yn golygu bod gan fy ysgyfaint feinwe greithiol, sy'n eu hatal rhag gweithio'n gywir. Gallai'r swm o feinwe greithiol gynyddu dros amser.'

- Meddyliwch am y pethau pwysicaf rydych am iddynt wybod. A yw'n sut mae ffibrosis yr ysgyfaint yn effeithio ar eich bywyd bob dydd? A yw eich bod yn pryderu am effaith eich diagnosis ar eich gwaith neu deulu?

- Ystyriwch eich anghenion eich hun. Gall fod yn demtasiwn i fychanu eich diagnosis neu greu darlun cadarnhaol ohono, ond dywedwch wrth bobl sut rydych yn teimlo fel y gallant eich cynorthwyo.

- Rhowch wybod i bobl sut y gallant eich helpu a'ch cefnogi chi. A yw hynny'n gymorth ymarferol â phethau fel siopa, neu gael rhywun i siarad ag ef/hi pan fydd angen.

- Gallwch eu gwahodd i grwpiau cymorth i ddysgu mwy am ffibrosis yr ysgyfaint a theimlo wedi'ch cynorthwyo gan gymuned. Mae grŵp cymorth penodol i ofalwyr, aelodau'r teulu a ffrindiau, ond gallant hefyd fynychu'r grwpiau cymorth rhanbarthol sy'n agored i bawb.

## Sut ddylwn i ddisgwyl i'r sgwrs fynd?

- Gallai dweud wrth bobl am eich diagnosis wneud i chi deimlo'n emosiynol iawn, ac mae hyn yn iawn. Gadewch i'ch hun deimlo eich emosiynau a gadewch i eraill wybod sut rydych yn teimlo.

- Peidiwch â phoeni gormod am seibiau tawel. Mae angen amser ar rai pobl i gymryd yr wybodaeth i mewn cyn ymateb, yn enwedig mewn sefyllfa emosiynol.

- Ystyriwch eu hadweithiau posibl a sut y gallech ymdrin â hyn. Er enghraifft, gallai rhai pobl fod yn emosiynol iawn, a gall eraill beidio â dweud llawer.

- Pan ddywedwch wrth bobl fod gennych ffibrosis yr ysgyfaint, gallai rhai pob wneud eu hymchwil eu hunain i ganfod triniaethau neu wellhadau. Er eu bod yn meddwl y gorau, mae llawer o wybodaeth allan yna nad yw'n gywir. Dylech ofyn bob amser i'ch tîm gofal iechyd cyn rhoi cynnig ar unrhyw awgrymiadau. Os oes rhywun wedi awgrymu i chi roi cynnig ar rywbeth nad ydych am roi cynnig arno, gallwch ddewud wrtho/wrthi bod angen i chi drafod hyn â'ch tîm gofal iechyd yn gyntaf, gan nad yw popeth yn addas i bawb.

# Esbonio ffibrosis yr ysgyfaint i blant

**Gall siarad am ffibrosis yr ysgyfaint fod yn anodd ond mae'n well fel arfer i fod yn onest am eich diagnosis gyda'r plant yn eich bywyd. Gallent ddweud bod rhywbeth wedi newid, ac y gall yr ansicrwydd hwn arwain iddynt wneud rhagdybiaethau a phryderu.**

## Rhoi sicrwydd

- Gall fod o gymorth i roi sicrwydd i blant nad yw'n rhywbeth sy'n digwydd fel arfer mewn plentyndod, a dim ond nifer fach iawn o oedolion sy'n ei gael.
- Gallwch hefyd roi sicrwydd iddynt y byddant yn ddiogel ac yn derbyn gofal, beth bynnag sy'n digwydd i chi.

## Ble a pham?

- Mynnwch sgwrs pan fyddant yn gallu meddwl am yr hyn rydych wedi'i ddweud a gofynnwch gwestiynau. Gallech fod am osgoi dweud wrthynt yn union cyn iddynt fynd i'r ysgol neu cyn amser gwely.
- Dewiswch fan lle maen nhw'n teimlo'n ddiogel a chyfforddus.



**"Pan ddysgais fod gennyf ffibrosis yr ysgyfaint, dywedais wrth fy mhlant ac fe wnaethon ni ymdrin ag ef gan ddefnyddio llawer o hiwmor. Maen nhw'n dweud wrthyf yn awr y cymerodd rywfaint o'r ing allan o'r sefyllfa. Nid yw'n rhywbeth y buaswn yn ei argymell i bawb, ond gweithiodd i ni."**

**Andy Bright**

## Beth i'w ddweud

- Gallai beth a ddywedwch ddibynnu ar eu hoedran a'u dealltwriaeth. Os ydych yn dweud wrth lawer o blant â bylchau oedran sylweddol, gallai fod o gymorth i ddweud wrthynt ar wahân. Yn y ffordd hon gallwch addasu'r hyn a ddywedwch i'w lefel o ddealltwriaeth.
- I lawer o blant, gallwch esbonio ffibrosis yr ysgyfaint trwy ddweud nad yw'ch ysgyfaint yn gweithio cystal â rhai'r rhan fwyaf o bobl, gan wneud anadlu yn anos i chi. Gallech fod am ddisgrifio sut mae hyn yn effeithio ar eich bywyd beunyddiol er mwyn iddynt ddeall y gallai fod angen i chi wneud pethau'n wahanol.
- Byddwch yn onest a defnyddiwch iaith uniongyrchol fel nad ydynt yn camddehongli'r hyn rydych yn ei ddweud.
- Nid oes rhaid i chi ddweud popeth wrthynt mewn un sgwrs.
- Mae'n iawn i ddweud 'dw i ddim yn gwybod' i rywbeth maen nhw'n ei ofyn i chi.



## Ceisiwch gyngor

- Cynhwyswch oedolyn arall mae'r plentyn yn agos ato/ati. Os ydych yn ddat-cu/mam-gu iddynt, gallech siarad â'r plentyn a'i rieni. Gall hyn helpu adeiladu rhwydwaith cymorth, fel bod gennych chi a'r plant rywun arall i fynd ato/ati â chwestiynau neu bryderon.

**Os oes angen cymorth arnoch i ddweud wrth eich teulu a ffrindiau am eich diagnosis, galwch ein llinell gymorth ar 01223 785 725 neu e-bostiwch supportline@actionpf.org**

# Mae Action for Pulmonary Fibrosis yn elusen wedi'i gyrru gan gleifion. Ein gweledigaeth yw atal ffibrosis yr ysgyfaint fel bod pawb a effeithir yn cael dyfodol gwell.

**Yma i helpu...**

**E-bostiwch ein tîm cymorth:**
support@actionpf.org

**Llinell gymorth:**
01223 785725

Os oes angen yr wybodaeth hon arnoch mewn fformat gwahanol fel print mawr, hawdd i'w ddarllen neu iaith arall, cysylltwch â ni.

**Ymholiadau cyffredinol:**
01733 839642
info@actionpf.org

**www.actionpf.org**

**Dilynwch ni ar gyfryngau cymdeithasol:**

Interstitial Lung Disease Interdisciplinary Network

Action for Pulmonary Fibrosis

Elusen Gofrestredig 1152399 yng Nghymru a Lloegr. Elusen Gofrestredig SC050992 yn yr Alban.